Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Abertawe**

ISBN: 978-1-84099-361-5

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yn Abertawe ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygiadau Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 68% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 53% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 66% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer Gwaith *Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50–82%.

Ar y cyfan, teimlwn fod y darganfyddiadau hyn yn rhai cymysg. Roedd y sefyllfa o ran cyflwyno ymyriadau a chyflawni canlyniadau yn gadarnhaol ond roedd asesu a chynllunio'n dal yn feysydd allweddol ar gyfer gwella. Mae'r argymhellion yn adlewyrchu hynny ac rydym yn hyderus y bydd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn parhau i adeiladu ar yr ymdrechion a wnaed eisoes yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Hydref 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl staff o'r Tîm Troseddwyr Ifanc, i aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Jane Attwood* |
| *Asesydd Ymarfer* | *Hannah Doughty* |
| *Asesydd CCI* | *Steve Davis* |
| *Staff Cefnogi* | *Andrew Trickett* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Catherine Calton; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan Macdonald* |

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 11 |
| 1.3 Diogelu: | 12 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau’r Risg o Niwed i eraill: | 14 |
| 2.2 Lleihau’r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 15 |
| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | 15 |
| 3. CANLYNIADAU | 17 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | 17 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau: | 17 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 19 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 20 |
| Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 21 |
| Atodiad 3b: Data’r arolygiad | 22 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a’r Cod Ymarfer | 22 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 23 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o’r ‘meini prawf ymarfer’ sy’n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio’n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy’n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynnar neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***68%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| **Gwarchod y Cyhoedd: sgôr *Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynnar neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***53%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella’n SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:***<br>***66%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o’r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## Argymhellion (rhoddir y person sy’n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod cynllun ac asesiad amserol ac o ansawdd da, gan ddefnyddio Asset, yn cael eu llenwi a'u cofnodi’n gywir pan fydd yr achos yn dechrau (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(2) yn benodol, bod asesiad prydlon ac o ansawdd da yn cael ei wneud ar y dechrau o Risg yr unigolyn o achosi Niwed i eraill fel y bo’n briodol i’r achos dan sylw (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod cofnod y cynllun ymyrryd yn benodol ynghylch beth fydd yn awr yn cael ei wneud i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc, i’w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu, ac i leihau unrhyw Risg o Niwed i eraill sydd wedi cael ei adnabod (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(4) bod plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr ac asiantaethau perthnasol eraill yn rhan o waith asesu a chynllunio’r achos (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(5) bod cynllun gwaith yr achos yn cael ei adolygu’n rheolaidd a’i gofnodi’n gywir yn Asset yn unol â’r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(6) bod tystiolaeth yn y ffeil o sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, yn enwedig mewn cysylltiad â phenderfyniadau sgrinio, fel y bo’n briodol i’r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc).

### Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau yn rhoi sylw i’r argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio’n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd wyth o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad.

- Dywedodd yr holl ymatebwyr fod eu gweithiwr Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi trafod naill ai'r contract gorchymyn cyfeirio neu'r cynllun dedfrydu â nhw a'u bod wedi cael gwybod beth fyddai'n digwydd pan fyddent yn dod i gysylltiad â'r Gwasanaeth. Pan ofynnwyd i'r plant pa mor rhwydd yr eglurwyd pethau iddynt gan y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, gellid crynhoi ymatebion y plant a'r bobl ifanc fel hyn: "wel, gwnaethon nhw egluro popeth i fi mewn iaith ro'n i'n gallu ei deall."
- Yn yr un modd, roedd pob un a ymatebodd yn teimlo bod staff y GTI yn dymuno eu helpu, wedi gwrando ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud, ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion roedd angen help arnynt. Ymateb nodweddiadol oedd "ges i help pan oedd angen help arna i a gwnaethon nhw eu gorau glas gyda fi".
- Roedd chwe phlentyn a pherson ifanc yn teimlo bod pethau wedi gwella iddynt yn sgil eu gwaith gyda'r GTI ac roedd pob un a ymatebodd yn teimlo eu bod yn llai tebygol o aildroseddu.

### Dioddefwyr

Cafodd deuddeg holiadur eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Dywedodd pob un a ymatebodd fod y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi ystyried eu hanghenion, wedi rhoi sylw i'w diogelwch a'u bod wedi trafod unrhyw amheuon a oedd ganddynt am y trosedd.
- Tri dioddefwr yn unig oedd yn teimlo eu bod wedi cael budd o'r gwaith a wnaethpwyd gan y person ifanc, ond roedd y rhelyw yn hollol fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y GTI. Ymhlith y sylwadau nodweddiadol a wnaethpwyd oedd hwn: " Roedd y gwasanaeth a gawsom o'r cysylltiad cyntaf tan y diwedd yn hynod broffesiynol ac o'r safon uchaf. Roedd y tîm a ddaeth atom yn gwrtais ac yn gefnogol drwy gydol yr amser. Byddem yn defnyddio neu'n argymell y gwasanaeth hwn yn y dyfodol heb feddwl dwywaith".

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 1.3** | Roedd Tony, bachgen 15 oed a oedd yn agored iawn i niwed, wedi cyflawni trosedd rhywiol difrifol ac wedi cael ei ddedfrydu dan a.91 am 30 mis. O ddyddiau cynnar y ddedfryd, roedd rheolwr yr achos wedi cysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac wedi hwyluso a chynllunio ei drosglwyddo o'r uned ddiogel lle'r oedd yn cael ei ddal i leoliad therapiwtig (yn hytrach na'i drosglwyddo yn syth i Sefydliad Troseddwyr Ifanc). Roedd y gwaith cynllunio hwn yn cynnwys ymchwilio i'r rhaglenni gwaith oedd ar gael, ystyried hyd y lleoliad trosiannol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwaith therapiwtig, a chyfarfod â'r staff yn yr uned dan sylw. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.2** | Roedd Canolfan Cyfiawnder Ieuenctid Abertawe'n uned ddiwydiannol 3000 troedfedd sgwâr a oedd wedi cael ei haddasu'n adeilad amlbwrpas i gynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd yn cynnwys gweithdai ar gyfer peirianyddion a seiri coed, labordy digidol, cegin â'r holl gyfarpar ynddi, a nifer o ystafelloedd dosbarth bach. Roedd yna hefyd gyfleusterau chwaraeon. Ymhlith y gweithgareddau a gynigwyd oedd sgiliau crefft, addysg a sgiliau bywyd. |

## (1) 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| **Risg o Niwed i eraill:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***52%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cyflawnwyd prawf sgrinio RoND mewn 91% o achosion.

(2) Pan gafodd Cynlluniau Rheoli Risg eu llenwi, fe'u cwblhawyd yn brydlon mewn pedwar allan o bum achos.

(3) Pan wnaethpwyd hysbysiadau a/neu pan gyfeiriwyd achosion perthnasol at MAPPA, fe'u cwblhawyd yn brydlon bob tro a barnwyd bod y lefelau MAPPA cychwynnol yn gywir.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Barnwyd nad oedd cywirdeb profion sgrinio RoND yn ddigonol mewn 60% o achosion ac ni chwblhawyd 29% ohonynt yn brydlon. Ni chwblhawyd dadansoddiad RoND llawn mewn 27% o'r achosion lle nodwyd bod angen gwneud hynny. Barnwyd nad oedd prydlondeb dadansoddiadau RoND yn ddigonol mewn 40% o achosion ac nid oedd ansawdd y dadansoddiadau yn ddigonol mewn 91% o achosion. Mewn saith allan o wyth achos, ni ystyriwyd y risg i'r dioddefwyr yn llawn ac ni roddwyd ystyriaeth i ymddygiad perthnasol blaenorol na materion amrywiaeth mewn pum achos.

(2) Nid oedd asesiadau RoND yn manteisio'n llawn ar asesiadau blaenorol asiantaethau eraill a/neu wybodaeth gan ddioddefwyr mewn 88% o achosion. Gwnaethom farnu bod dosbarthiad y RoND yn anghywir mewn 28% o achosion gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhy isel.

(3) Ni lenwyd Cynllun Rheoli Risg mewn hanner yr achosion perthnasol. O'r pum cynllun a gwblhawyd, barnwyd nad oedd tri ohonynt o safon ddigonol. Cafwyd sawl maes lle ystyriwyd bod diffygion yn y cynlluniau; nid oedd y rolau a'r cyfrifoldebau'n glir ac ni roddwyd ystyriaeth i faterion amrywiaeth mewn dau achos. Barnwyd hefyd nad oedd yr ymdriniaeth o faterion dioddefwyr na'r ymateb a gynlluniwyd yn ddigonol mewn tri achos.

(4) Lle nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg, ni nodwyd materion yn ymwneud â *Pherygl o Niwed* mewn 75% o achosion ac ni weithredwyd ar hynny mewn 67% o achosion.

(5) Mewn dau o'r pum achos perthnasol ni hysbyswyd MAPPA.

(6) Ni chyfathrebwyd manylion asesu na rheoli *RoND* yn ddigon da mewn 71% o achosion. Barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr dros y broses asesu *RoN* yn aneffeithiol mewn 81% o achosion a'u goruchwyliaeth dros Gynlluniau Rheoli Risg yn aneffeithiol mewn 80% o achosion.

| **1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:*** ***58%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

## *Cryfderau:*

(1) Gwnaethpwyd asesiadau cychwynnol o'r ToA mewn 89% o achosion. Cafwyd cyswllt â'r heddlu mewn 80% o achosion a gyda'r Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn 92% o achosion er mwyn eu hysbysu o'r asesiad cychwynnol.

(2) Roedd cynllun ymyrryd neu gontract gorchymyn cyfeirio ar waith mewn 94% o'r achosion ac roedd 89% wedi cael eu cwblhau'n brydlon. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael â ffordd o feddwl ac ymddygiad (94%), agweddau at droseddu (97%) ac ysgogiad dros newid (89%). Lle bo hynny'n berthnasol, gwnaethpwyd hefyd ymyriadau i roi sylw i gamddefnyddio sylweddau (84%) ac i gefnogi addysg (84%).

(3) Roedd rhan fwyaf y cynlluniau ymyrryd yn ystyried anghenion Diogelu (80%) ac yn cynnwys gwaith Diogelu priodol (78%), yn cynnwys ffactorau cadarnhaol (71%), ac yn adlewyrchu dibenion dedfrydu (88%) a Safonau Cenedlaethol (81%).

(4) Roedd cynlluniau ymyrryd yn cael eu hadolygu ar yr adegau priodol mewn 84% o achosion.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cynnwys yn weithredol wrth gynnal yr asesiad cychwynnol mewn 44% o achosion. Mewn 69% o achosion, nid oedd gwybodaeth o'r holiadur *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* wedi'i chynnwys. Gwelwyd sefyllfa debyg gyda rhieni/gofalwyr.

(2) Barnwyd nad oedd ansawdd yr asesiad cychwynnol o’r ToA yn ddigonol mewn 60% o achosion ac roedd diffyg tystiolaeth a thystiolaeth aneglur yn nodwedd benodol ohonynt. At hynny, ni chwblhawyd asesiadau cychwynnol yn brydlon mewn 31% o achosion ac roedd diffyg eglurder ynghylch yr union ddyddiad y’u gwnaethpwyd mewn nifer sylweddol o achosion.

(3) Roedd cyswllt ag asiantaethau eraill, i'w hysbysu ac yn ymwneud â'r asesiad cychwynnol, yn annigonol mewn nifer o achosion (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant 38%, darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth 63%, gwasanaethau iechyd meddwl/emosiynol 55%, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau 60%).

(4) Nid oedd yr asesiadau cychwynnol yn cael eu hadolygu ar yr adegau priodol mewn 29% o achosion.

(5) Cafwyd llawer o broblemau gyda’r cynlluniau ymyrryd. Nid oeddent yn rhoi digon o sylw i ffactorau’n ymwneud â throseddu mewn 33% o achosion; yn benodol, cafwyd nifer sylweddol o achosion lle nodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol, trefniadau byw a/neu berthnasau personol a theuluol yn broblem ond ni chawsant eu cynnwys yn y cynlluniau. Ni chafodd arddulliau dysgu eu hymgorffori mewn 81% o achosion ac ni chafodd Cynlluniau Rheoli Risg eu hymgorffori mewn 65% o achosion. Nid oedd hanner y cynlluniau’n gosod amserlenni realistig nac amcanion perthnasol ac roedd llai na hanner wedi’u blaenoriaethu yn ôl *RoN*, nid oeddent mewn trefn yn ôl angen mewn cysylltiad â throseddu, nac yn sensitif i faterion amrywiaeth. Nid oedd materion dioddefwyr yn cael eu hystyried mewn 56% o achosion.

(6) Barnwyd nad oedd plant a phobl ifanc, a’u rhieni/gofalwyr yn gallu cymryd rhan weithredol ddigonol yn y broses gynllunio mewn 53% a 50% o achosion yn y drefn honno. Nid oedd cyfraniad asiantaethau eraill yn y broses gynllunio’n ddigonol ac eithrio’r sefydliad diogel a oedd yn cyfrannu at bob achos perthnasol.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae’r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau bregusrwydd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***59%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella’n SYLWEDDOL*** |

## *Cryfderau:*

(1) Cynhaliwyd profion sgrinio bregusrwydd mewn 91% o achosion a chwblhawyd 74% ohonynt yn brydlon.

(2) Gwnaethpwyd cyfraniad at gynlluniau eraill yn ymwneud â lles plant ac roedd copïau ar ffeil mewn tri chwarter yr achosion perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwnaethom farnu nad oedd safon y profion sgrinio bregusrwydd yn ddigonol mewn 71% o achosion a darganfod nad oedd anghenion Diogelu wedi'u hadolygu'n briodol mewn 40% o achosion.

(2) Darganfuom, o'r achosion lle dylid cael Cynlluniau Rheoli Bregusrwydd, na chawsant eu cwblhau mewn 50% o achosion. O'r rheini a gwblhawyd, ni lenwyd 58% ohonynt yn brydlon, barnwyd nad oedd 67% ohonynt o safon ddigonol, ac nid oedd dros hanner ohonynt yn cyfrannu at yr ymyriadau. Mewn dau o'r wyth achos dedfryd cadw dan glo, ni roddwyd gwybod i'r sefydliad diogel am unrhyw faterion yn ymwneud â bregusrwydd cyn y ddedfryd neu'n syth ar ei hôl.

(3) Barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr dros y broses asesu bregusrwydd yn aneffeithiol mewn 55% o achosion.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 57%

### SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:

Barnwyd bod yr asesiadau cychwynnol o *RoN*, *ToA*, a bregusrwydd yn annigonol mewn nifer fawr o achosion. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi adolygu ei bolisi rheoli risg, wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith, ac wedi cynnal hyfforddiant i staff yn dilyn argymhelliad yn yr arolygiad diwethaf. Felly, roedd yn hynod siomedig bod rhai staff yn dal i fod yn ddryslyd ynghylch y cysyniad, y broses a'r gweithdrefnau gwahanol ar gyfer asesu risg o niwed a risg o niwed difrifol i eraill. Adroddodd rhai rheolwyr achos eu bod yn teimlo bod y pwyslais ar osgoi gwneud dadansoddiad RoND. At hynny, ceir diffyg dealltwriaeth y gallai ymddygiad olygu bod plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed yn ogystal â pheri *RoN*. Nid oedd y cynlluniau bob amser yn adlewyrchu'r asesiadau. Roedd rhai o'r staff yn teimlo mai'r rheswm dros hyn oedd yr asesiad cychwynnol a'r ffaith bod y cynllun yn cael ei lunio gan bobl wahanol. Serch hynny, roedd gan y tîm rheoli hyder yn y broses.

## (7) 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| **2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill* | |
| ***Sgôr:***<br>***60%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Gwnaethpwyd defnydd effeithiol o MAPPA mewn tri allan o'r pedwar achos perthnasol ac mewn dau o'r achosion dedfrydu dan glo perthnasol. Roedd rheolwyr achos wedi cyfrannu'n effeithiol at y broses MAPPA. Roedd rheolwyr achos hefyd wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth eraill mewn dros 80% o achosion.

(2) Cynhaliwyd ymweliadau pwrpasol yn y cartref yn unol â lefel y *RoN* mewn 80% o achosion ac anghenion Diogelu mewn 88% o achosion.

(3) Dyrannwyd adnoddau priodol yn unol â'r *RoN* a aseswyd mewn 77% o achosion a darparwyd ymyriadau penodol i reoli *RoN* yn ôl y bwriad mewn 89% o achosion cymunedol. Gwnaethpwyd hyn ym mhob achos o ddedfryd dan glo ac fe gawsant eu hadolygu hefyd yn dilyn newid sylweddol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Ni chwblhawyd yr adolygiad o *RoN* o fewn yr amserlenni gofynnol mewn 50% o achosion neu ar ôl newid sylweddol mewn 67% o achosion. Ni chafodd newidiadau mewn ffactorau RoN eu rhagweld lle oedd hynny'n bosib mewn 68% o achosion, dynodwyd newidiadau o'r fath yn gyflym mewn 40%, a chymerwyd camau priodol mewn 67%.

(2) Ni wnaethpwyd asesiad llawn o ddiogelwch dioddefwyr mewn 80% o achosion ac mewn 74% o achosion ni roddwyd blaenoriaeth uchel i ddiogelwch dioddefwyr.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:*** ***76%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Mae'r ymyriadau a gyflawnir yn y gymuned: wedi'u llunio i leihau aildroseddu (76%), o ansawdd da (73%), wedi'u rhoi ar waith yn unol â'r cynllun ymyrryd (73%) ac wedi cael eu hadolygu'n briodol (70%).

(2) Roedd y GTI wedi cymryd rhan briodol wrth adolygu'r ymyriadau dan glo yn yr holl achosion perthnasol.

(3) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu yn unol â'r ToA a aseswyd mewn 86% o achosion.

(4) Roedd gweithiwr y GTI wedi ysgogi a chefnogi plant a phobl ifanc yn y gymuned, ac wedi ategu ymddygiad cadarnhaol drwy gydol y ddedfryd ym mron pob un achos. Roedd rhieni/gofalwyr wedi ymgysylltu'n weithredol mewn dros 80% o achosion.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn y gymuned yn briodol i'r arddull dysgu (55%) nac mewn trefn briodol (31%). Nid oedd materion amrywiaeth wedi eu hymgorffori mewn 36% o achosion.

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau bregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:*** ***82%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd unrhyw gam gweithredu brys er mwyn diogelu ac amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc, neu unrhyw blentyn neu berson ifanc arall yr effeithir arno, wedi cael ei gymryd ym mhob achos. Gwnaethpwyd yr holl gyfeiriadau angenrheidiol i asiantaethau eraill er mwyn Diogelu.

(2) Yn y gymuned, roedd staff y GTI wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau eraill i hybu Diogelu. Gwelwyd tystiolaeth o hyn gyda darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn 95% o achosion, gyda'r gwasanaethau iechyd corfforol mewn 80% o achosion, a gyda'r sefydliad diogel, yr heddlu a'r Uned ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob achos perthnasol. O ran plant a phobl ifanc dan glo, roedd staff y GTI wedi gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol ym mhob achos.

(3) O ran y rheini sydd dan glo, gwnaethpwyd gwaith digonol yn y rhan fwyaf o achosion gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddi-dor wrth drosglwyddo o fod dan glo i'r gymuned. Nodwyd a chyflawnwyd ymyriadau penodol i hybu Diogelu mewn 80% o achosion perthnasol.

(4) O ran plant a phobl ifanc yn y gymuned, nodwyd a chyflawnwyd ymyriadau penodol i hybu Diogelu mewn 83% a 78% o achosion perthnasol yn y drefn honno.

(5) Barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr dros Ddiogelu a bregusrwydd yn effeithiol mewn 80% o achosion dedfryd dan glo.

(6) Roedd staff yn hybu lles y plant a'r bobl ifanc drwy gydol eu dedfryd mewn dros 90% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Ni wnaethpwyd gwaith gydag asiantaethau eraill i hybu Diogelu mewn nifer o achosion (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant 31%, gwasanaethau iechyd meddwl/emosiynol 36%, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau 38%).

(2) Barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr dros Ddiogelu a bregusrwydd yn aneffeithiol mewn 38% o achosion yn y gymuned.

## Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 73%

### SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:

Gwnaethom sylwi ar rywfaint o waith ymyrryd o ansawdd da yn cael ei ddarparu yn enwedig mewn cysylltiad â gorchmynion cyfeirio. Dangosodd rheolwyr achos fod ganddynt ymrwymiad i blant a phobl ifanc a diddordeb gwirioneddol yn eu lles. Cynhaliwyd ymweliadau priodol yn eu cartref a chafwyd ymgysylltiad da gyda rhieni/gofalwyr. Gwnaethom weld rhywfaint o waith unigol llawn dychymyg wrth ymgorffori materion amrywiaeth.

# 3. CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***68%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn 89% o achosion.

(2) Pan nad oedd plentyn neu berson ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd, roedd y camau gorfodi a gymerwyd yn ddigon da mewn 86% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwnaethom farnu nad oedd y *RoN* wedi cael ei reoli'n effeithiol mewn 37% o achosion.

(2) Mewn 36% o achosion ni chafwyd lleihad yn y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â Diogelu.


| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***87%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfder:*

(1) Mewn 85% o achosion roedd sylw llawn wedi cael ei roi i faterion integreiddio yn y gymuned mewn dedfrydau dan glo ac yn y gymuned. Yn yr un modd, cymerwyd camau i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal mewn dros 80% o achosion.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 75%

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Lleolir Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Abertawe yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 223,301 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 10.2% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Abertawe yn wyn Brydeinig yn bennaf (97.8%). Roedd y boblogaeth a oedd o dras pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (2.2%) fymryn yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru sy'n 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a riportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed ddedfryd cyn-llys a dedfryd llys yn 2008/2009, sef 42 am bob 1,000, yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n 46.

### Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r GTI o fewn yr un ffiniau ag ardal Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2010).

Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yng nghanol y broses o newid i Ymddiriedolaeth Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Roedd y GTI wedi'i leoli o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Is-adran Plant a Theuluoedd. Caiff ei reoli gan Reolwr y GTI.

Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r GTI oedd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd pencadlys y GTI yn nhref Abertawe. Lleolwyd gwaith gweithredol y GTI yn y pencadlys yn Abertawe ac yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid. Darparwyd y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys gan y GTI.

### Data am berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad yn seiliedig ar y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Abertawe o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r GTI mewn addysg, hyfforddiant neu waith, yn 60.8%. Roedd hyn yn waeth na'r flwyddyn cynt, ac yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sy'n 69%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 96%. Roedd hyn yn waeth na'r flwyddyn cynt, a mymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sy'n 96.1%.


Y 'gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' oedd 74%, sydd ar yr un lefel â'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, sydd hefyd yn 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Math o ddedfryd**





**Sampl Achosion: Risg o niwed**





**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r ddedfryd**




**Sampl Achosion: Rhyw**




**Sampl Achosion: Tarddiad ethnig**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Mehefin 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*Llundain, SW1P 2BQ*

Mae'r siartiau data yn yr adroddiad hwn ar gael yn electronig drwy wneud cais

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Swyddfa Cofnodion Troseddol |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau adeiladol a chyfyngu | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad adeiladol yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad cyfyngu yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau Risg unigolyn o achosi Niwed i Eraill.<br>Enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai ymyriad adeiladol gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai ymyriad cyfyngu (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau adeiladol. |
| Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno Risg o Niwed uwch i eraill. |

| | |
|---|---|
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu’r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu’n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, ‘Cais am Wasanaeth’ yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| Adroddiad Cyn Dedfrydu | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| ‘Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis’ | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae’n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy’n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu’n llai na 100%.<br>‘felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni ‘am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth’ dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 74%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolyn o achosi Niwed. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau cyfyngu. |
| *‘Gwaith RoN, neu ‘Gwaith Risg o Niwed’* | Dyma’r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngu, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy’n achosi Risg o Niwed i eraill. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae’n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio’r term hwn oherwydd nid yw’n helpu i egluro’r gwahaniaeth rhwng pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae’r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith ‘ddifrifol’ yn unig, tra bod Risg o Niwed yn golygu y gellir rhoi’r sylw angenrheidiol i’r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy’n cael llai o effaith / sy’n llai difrifol yn debygol. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau’r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i’w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i’w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy’n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| TTI | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-361-5